Pembrokeshire Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth 27 Medi 2022 am 10:00am (Cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cyngh. Neil Prior | CSP (Cadeirydd) |
| Philip Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, BIP Hywel Dda (Is-Gadeirydd) |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro |
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, Porthladd Aberdaugleddau |
| David Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro |
| Y Cyngh. Elwyn Williams | Cadeirydd Awdurdod Tân CGC |
| Rebecca Evans | Uwch Swyddog Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, BIPHDd |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Darren Thomas | Pennaeth Seilwaith, CSP |
| Darren Mutter | Pennaeth Gwasanaethau Plant, CSP |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, CNC |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru |
| Ceri Jackson | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes, GTACGC |
| Abi Marriott | Cydlynydd Prosiect, PLANED |
| Vikki Butler | CoPro Wales |
| Dyfed Bolton | Prif Arolygydd Partneriaethau, HDP |
| Alan Netherwood | Netherwood Sustainable Futures |
| Jetske Germing | Rheolwr Gyfarwyddwr, Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| Alex Cameron-Smith | Cydlynydd Ymgysylltu ar gyfer y Gymuned a Newid Hinsawdd, FfASB |
| Nia Simes | Graddedig y RhDGG, CSP |
| Huw Rowlands | Graddedig RhDGG, CSP |

*Cymorth/Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Jemma Rees | Swyddog Cymorth Partneriaethau Corfforaethol, CSP |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, CSP |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Maria Battle | Cadeirydd, BIP Hywel Dda |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, CSP |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, APCAP |
| Dr Steven Jones (SPJ) | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, CSP |
| Mydrian Harries | Pennaeth Corfforaethol Atal a Gwarchod, GTA CGC |

| | |
|---|---|
| Iwan Thomas | Prif Weithredwr, PLANED |
| Will Bramble | Prif Weithredwr, CSP |
| Yr UA Anthony Evans | Heddlu Dyfed Powys |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Elaine Lorton | Cyfarwyddwr Sirol, BIP Hywel Dda |

Dechreuodd y cyfarfod am 10:05am.

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Fe wnaeth NP groesawu'r BGC a dweud ei fod yn gobeithio am gyfarfod cynhyrchiol, â ffocws. Rhestrwyd yr ymddiheuriadau o blith yr uchod. Roedd RE a JMC yn symud i weithio o fewn BIPHDd o ICC, gyda'u rolau'n aros yr un fath ond heb iddynt fod yn cynrychioli ICC.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Log Gweithredu

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2022 yn gywir. Nododd NP wall sillafu yn y cofnodion Saesneg, sef "doorstop" yn lle "doorstep".

Roedd y camau gweithredu o'r log gweithredu fel a ganlyn:
Cam Gweithredu 1- Roedd NP wedi cael rhai sgyrsiau gydag aelodau'r BGC ac mae wedi trefnu rhai pellach. Mynegodd CG ddiddordeb mewn cael cyfarfod gyda NP i gynnig cysylltiadau yn Llywodraeth Cymru.
Cam Gweithredu 2 – roedd hwn yn dal heb ei gyflawni a byddai PK yn cysylltu â RB i ganfod y cyswllt ym Mhrifysgol Abertawe.
Cam Gweithredu 3- Roedd cyfarfod wedi'i drefnu rhwng SL a PK, ac roedd SL hefyd yn cwrdd â WB mewn perthynas ag iechyd cymdeithasol.
Cam Gweithredu 4 – Roedd hwn ar y gweill a gallai sefydliadau barhau i fynegi diddordeb mewn defnyddio Engagement HQ.
Cam Gweithredu 5 – Cam gweithredu a ddeilliodd o Grŵp Ymgysylltu'r BGC oedd hwn, lle nodwyd fod angen gwrando ar sgyrsiau yn y gymuned, yr oedd angen ei gydlynu ac roedd SL yn ceisio sicrhau cyllid.
Cam Gweithredu 6 – Roedd NE a NP wedi mynegi diddordeb mewn ymwneud â'r cynllun peilot, a oedd yn llwyddiannus ac roeddent yn disgwyl am ddyddiad ar gyfer cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru.

## 3. Datblygiad y Cynllun Llesiant (Nick Evans)

Dywedodd NE mai'r pwnc yma fyddai'r drafodaeth allweddol yn y cyfarfod. Cafodd y prif ganfyddiadau o'r ymarfer ymgysylltu eu cylchredeg ym mhecyn yr agenda ac roedd y bylchau a nodwyd yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant. Y camau nesaf oedd nodi sut i ymateb i'r arsylwadau a'r llinell amser ar gyfer y gwaith a oedd hefyd wedi'i chynnwys yn y papurau. Rhestrwyd y bylchau a nodwyd gan yr ymarfer ymgysylltu, er nad oedd angen i'r BGC fynd i'r afael â'r holl fylchau ond roedd angen sail resymegol arno i gyfiawnhau eu hepgor. Er enghraifft, nid oedd tai wedi'i gynnwys yn y CLl blaenorol gan mai'r teimlad oedd nad oedd yn faes yr oedd y BGC yn gallu dylanwadu arno. Roedd angen i'r meysydd a fyddai'n cael eu dewis i fod yn rhan o'r cynllun ddangos cydweithio eglur o fewn y BGC i wella'r sefyllfa.

Tynnodd NE sylw at y llinell amser, gan amlygu'r gweithgareddau cyfredol dros yr wythnosau nesaf i ddatblygu'r cynllun drafft, nad oedd angen iddo fod yn hynod fanwl ond yr oedd angen digon o fanylder ynddo i'r BGC ymgynghori yn ei gylch. Roedd gwybodaeth wedi cael ei

chynnwys yn y ddogfen a oedd yn nodi'r camau y byddai eu hangen er mwyn cymeradwyo'r cynllun ym mis Mawrth, a nododd fod angen i'r partneriaid statudol gyflwyno'r drafft i'w byrddau i gael ei gymeradwyo cyn bod y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Mai 2023.

Dywedodd NE mai un or camau gweithredu a ddeilliodd o gyfarfod blaenorol y BGC oedd cynnal ymarfer mapio ar weithgorau yn erbyn yr amcanion, a oedd wedi'i nodi yn y papur. Roedd y mwyafrif o'r meysydd yn syml, gyda gweithgorau'n cyd-fynd yn uniongyrchol ag amcanion ac felly'n gallu ysgwyddo rôl i gynllunio camau gweithredu. Roedd rhai bylchau wedi'u nodi yr oedd angen eu trafod gan bod grwpiau presennol yn y sir sy'n gwneud gwaith yn y meysydd hyn nad ydynt yn grwpiau sy'n gysylltiedig â'r BGC o bosibl.

Gofynnodd NP i'r grŵp fod yn wrthrychol o ran pa mor effeithlon yr oedd yr is-grwpiau presennol wedi bod a gofynnodd am eglurder ynghylch perchnogaeth ar waith a ffocws gwaith. Dywedodd PK fod angen i'r deilliannau o'r amcanion gael eu nodi a bod angen bwrw golwg ôl-weithredol ar yr hyn yr oedd yr is-grwpiau blaenorol wedi'i gyflawni mewn perthynas â'r amcanion gwreiddiol.

Dywedodd SL, o'i phrofiad fel arweinydd un o'r is-grwpiau, fod y grwpiau wedi gweithio hyd eithaf eu gallu ac wedi creu camau gweithredu ar y cyd ar draws nifer o wasanaethau, er y byddai rhai camau gweithredu y cyflwynwyd adroddiadau i'r BGC arnynt wedi digwydd heb ymwneud gan y BGC. O'i gymharu â'r BPRh, sy'n cael cyllid a chymorth sylweddol, nid yw'r BGC yn cael unrhyw gyllid ac ychydig iawn o gymorth y mae'n ei gael felly mae angen asesu sut i ddarparu adnoddau ar gyfer gwaith.

Dywedodd DT fod adnoddau ar gyfer y gwaith Ymaddasu i Newid Hinsawdd yn cael eu ceisio trwy gyllid grant a bod canlyniadau amlwg i'r gwaith. Y BGC yw'r unig grŵp sy'n dod â'r holl sefydliadau ynghyd ar gyfer ffocws unigol ar waith ac awgrymodd fod BGCau yn ysgrifennu ar y cyd at Lywodraeth Cymru i ychwanegu nerth at y cais am adnoddau.

Dywedodd CG mai adnodd cyfunol oedd BGCau i fod ac y dylai ddefnyddio adnoddau amgen, gan ychwanegu y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad ynghylch ble i gael cyllid ar gyfer gwaith. Sut i gydweithio mewn ffordd wahanol ddylai'r safbwynt fod.

Gofynnodd NP i DM a oedd yn teimlo bod y BGC yn ychwanegu at y gwaith tlodi ynteu a fyddai'r gwaith wedi digwydd beth bynnag, ac ymatebodd DM gan ddweud y byddai'r gwaith wedi digwydd gan bod tlodi'n fater mor allweddol ond bod y BGC wedi cyflawni rôl hwyluso trwy gydgysylltu ymwneud sefydliadau eraill â'r gwaith. Y grŵp yma yw'r is-grŵp mwyaf newydd i gael ei ffurfio o'r BGC, gan gynnwys penderfynwyr allweddol ac mae ganddo egni da sy'n gyrru'r gwaith yn ei flaen gan olygu bod y gwaith yn symud ymlaen yn gyflym, gan nad oes angen cymeradwyo camau gweithredu. Ffocws gweithredol oedd i'r grŵp ar hyn o bryd ond byddai angen mwy o ymgynghori ar gyfer y cynllun tymor canolig/hir. Dywedodd NP y dylai'r prif fwrdd fod yn alluogwr ar gyfer gwaith tymor hwy a pheidio â chreu rhwystr i gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith.

Dywedodd DM fod gwaith yr is-grwpiau'n gorgyffwrdd dros nifer o'r amcanion a bod y bwrdd yn ei gwneud yn bosibl cysylltu a gorgyffwrdd ar lefel uwch. Gofynnodd SL i DM, os oedd rhwystr i'r gwaith, a oedd yn teimlo y gallai'r BGC ddatrys y broblem. Fe ymatebodd DM gan ddweud, oherwydd y gefnogaeth amlasiantaeth, y byddai'n syndod pe bai rhwystr sylweddol o'r fath yn codi. Mae'r argyfwng tlodi ar yr un lefel â'r pandemig felly mae ymdeimlad o frys mewn perthynas â'r pwnc yn barod ond, i ateb, dywedodd y byddai o gymorth i ddileu rhwystr ond y byddai'n senario annhebygol bod rhwystr yn codi beth bynnag.

Gofynnodd NP a oedd ffordd o asesu pa un a oedd pob un o'r is-grwpiau'n cynnwys yr aelodaeth gywir ac awgrymodd JMC mai darn o waith i sefydliadau unigol oedd asesu pwy oedd y cynrychiolydd mwyaf priodol. Dywedodd NP y dylai'r BGC fod yn ymwybodol o gydweithio gyda gwaith yr oedd sefydliadau unigol eisoes yn ei wneud.

Dywedodd DM fod y grŵp tlodi'n gweithio'n dda oherwydd y brys sydd i ymdrin â'r sefyllfa a'r camau gweithredol presennol ym mhob sefydliad, a dywedodd ei fod yn disgwyl y byddai gwaith i ddatblygu strategaeth yn mynd rhagddo'n arafach. Gofynnodd PK sut y byddai'r BGC yn helpu i ddatblygu'r strategaeth tlodi ac adnabod y camau gweithredu ymhen 5 mlynedd, a sut y byddai'r BGC yn cydgysylltu'r gorgyffyrddiadau rhwng gwaith yr is-grwpiau.

Dywedodd DT nad oedd y camau gweithredu penodol o fewn y maes gwaith Newid Hinsawdd wedi'u diffinio'n arbennig o glir a'i fod ef wedi profi'r gwrthwyneb i'r hyn yr oedd DM wedi'i brofi gyda holl aelodau'r BGC yn gefnogol ond dim cydlynu penodol a dim cyfeiriad eglur o ran y ffordd ymlaen, ac amlygodd y gofyniad i gydgysylltu gwaith.

Ar bwnc tai, un o'r bylchau a nodwyd o'r ymarfer ymgysylltu, gofynnodd CG a oes gan y BGC unrhyw ysgogiadau uniongyrchol neu effeithiau eilaidd uniongyrchol er enghraifft y Gymraeg, diwylliant neu dlodi y gellid dylanwadu arnynt.

Crynhodd NP gan ddweud bod angen eglurder ynghylch cyflawniadau'r is-grwpiau, gan ymdrin â'r adnoddau cyfunol, gwaith cydweithredol i leihau dyblygu, a sut y gall y BGC gefnogi datblygiad strategol. O ran tlodi, dywedodd DM y byddai llawer o weithgarwch yn y misoedd nesaf a thros y flwyddyn nesaf ac felly y gellid casglu data ar ôl y flwyddyn i gael mesur o'r deilliannau, gan felly ddangos effeithiolrwydd y grŵp. Dywedodd SL fod nifer o grwpiau cymunedol y gellid eu defnyddio i gyflawni'r Cynllun Llesiant.

Awgrymodd NP fod ail gyfarfod yn cael ei gynnal i asesu meysydd y gellid eu targedu a dywedodd NE fod angen i'r grŵp fod yn ymwybodol o'r raddfa amser gan bod rhaid llunio'r drafft erbyn mis Tachwedd i gael ei gymeradwyo gan y BGC yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd a phe na bai hyn yn digwydd y gallai'r bwrdd fethu â chydymffurfio â therfynau amser.

Gofynnodd JMC i NE a oedd unrhyw fylchau pwysig wedi cael eu hadnabod os oedd yr holl is-grwpiau presennol yn gweithredu yn ôl y disgwyl ac fe gyfeiriodd NE at faes sgiliau/twf, er bod SL wedi crybwyll BUESB, lle byddai defnyddio'r grŵp yma i gyflawni camau gweithredu'n atal dyblygu.

Awgrymodd PK y gellid defnyddio arweinwyr presennol yr is-grwpiau i helpu i gynhyrchu'r cynllun drafft gan fynd ati ar yr un pryd i asesu gwaith y grŵp. Roedd yn ymddangos hefyd bod bwlch ym maes iechyd ac awgrymodd y gellid cysylltu ag EL a JMC i drafod.

Dywedodd NE mai ar ffurf dogfen ddrafft yr oedd angen cynhyrchu'r cynllun ar hyn o bryd ac, er y byddai'n ddefnyddiol cadarnhau camau gweithredu gyda mecanweithiau cyflawni a monitro, bod angen i'r amlinelliad bras gael ei gadarnhau fel blaenoriaeth erbyn cyfarfod y BGC ym mis Tachwedd.

Dywedodd SL fod terfynau amser Llywodraeth Cymru'n tueddu i fod yn her a gofynnodd a allai gwaith barhau yn ystod y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos, a lle y ceir is-grwpiau gweithredol, bod angen i negeseuon fod yn glir ynghylch y protocolau a'r camau gweithredu a ddisgwylir gan y BGC. Dywedodd CG fod angen cynnal ymgynghoriad ystyrlon dros y cyfnod o 12 wythnos ond y gallai'r BGC fod yn agored ac yn onest bod meysydd y mae angen eu cwblhau o hyd; fodd bynnag roedd angen digon o gynnwys yn y drafft i ymgynghori yn ei gylch.

Byddai NE yn trefnu cyfarfod dilynol ar gyfer trafodaeth bellach ynglŷn â sut i symud ymlaen gyda chynllunio camau gweithredu ar gyfer y Cynllun drafft.

## 4. Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd ar gyfer Sir Benfro

Dywedodd DT fod is-grŵp Newid Hinsawdd y BGC wedi cael ei greu gydag AW fel Cadeirydd a DT fel Is-gadeirydd, i lunio'r Strategaeth Ymaddasu a goruchwylio'r rhaglen waith sy'n deillio o hynny. Roedd AW wedi sefyll i lawr fel cynrychiolydd CNC ar y BGC a CD oedd y cynrychiolydd newydd bellach.

Darparodd AN gyflwyniad, gan roi trosolwg o'r Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd a oedd wedi'i chwblhau. Dywedodd JG y gofynnwyd yng nghyfarfod yr is-grŵp i AN flaenoriaethu'r 5 prif cam gweithredu o'r strategaeth ond nad oedd yn gallu gwneud hynny gan bod yr holl gamau gweithredu yr un mor bwysig â'i gilydd. Roedd FfASB wedi ymgeisio am gyllid ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ac i gefnogi gwaith Ymaddasu i Newid Hinsawdd y BGC, a fyddai'n arbennig o bwysig gan bod yr hinsawdd yn amcan llesiant a oedd wedi'i nodi.

Nid oedd DT wedi cael unrhyw sylwadau pellach gan aelodau ac roedd yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r cynllun, i'r is-grŵp Newid Hinsawdd fod â chadeirydd enwebedig newydd ac i ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer y dyfodol. Nododd DT hefyd fod peth wmbredd o waith wedi'i gynnwys yn y strategaeth ac y dylid bod yn ymwybodol, pe bai'r BGC yn ymrwymo i'r strategaeth ac yn peidio â'i chyflawni, y gallai fod "adlach". I grynhoi, roedd DT yn gofyn am gymeradwyaeth y BGC i fabwysiadu'r cynllun, datblygu mecanwaith ar gyfer cyflawni a chael cyllid grant fel a grybwyllwyd gan JG.

Dywedodd AN fod sbectrwm eang o faterion wedi cael eu nodi, gan olygu felly bod angen gwneud peth wmbredd o waith. O waith CLILC, nodwyd fod llawer o arweinyddiaeth mewn perthynas â newid hinsawdd ledled Cymru.

Dywedodd SL fod y cynllun 5 mlynedd a oedd wedi'i nodi yn y strategaeth yn optimistaidd oherwydd nifer y camau gweithredu a oedd wedi'u rhestru. Dywedodd AN nad oedd disgwyl i'r BGC gyflawni'r holl gamau gweithredu ond yn hytrach dechrau gwaith ar bob un ohonynt. Fe gynigiodd helpu gyda chategoreiddio'r camau gweithredu'n rhai tymor byr, canolig a hir a dywedodd y byddai angen ceisio cyllid i weithio ar y camau gweithredu, a fyddai'n achosi oedi. Dywedodd SL fod rhai meysydd eisoes yn cael eu trafod yn y CLI a'u bod yn drawsbynciol a oedd yn rhywbeth i fod yn ymwybodol ohono wrth ddechrau gwaith i gyflawni'r camau gweithredu.

Nododd NP mai dim ond un adran o'r CLI oedd Newid Hinsawdd, y byddai angen arweinyddiaeth ac adnoddau sylweddol ar gyfer y 24 o gamau gweithredu a allai effeithio ar feysydd eraill yn y CLI. Dywedodd AN nad dim ond y BGC fyddai'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu ond y dylai'r grŵp fynd ati'n rhagweithiol i ysgogi sefydliadau allweddol i gyflawni'r strategaeth, gan weithredu fel arweinydd mewn enw a hwylusydd.

Dywedodd CD y byddai angen i'r cyfrifoldeb am gyflawni'r gwaith gael ei rannu ac y byddai angen ceisio'r berchnogaeth gywir oherwydd pe bai gwaith yn cael ei ddechrau, byddai angen parhau ag ef yn y dyfodol. Awgrymodd SL fod y strategaeth yn cael ei chymeradwyo yn y cyfarfod ond sgyrsiau pellach yn cael eu cynnal ynghylch y canlyniadau. Fe ychwanegodd NE y byddai'r strategaeth yn cael ei hymgorffori yn y Cynllun Llesiant yn ei gyfanrwydd.

Fe gymeradwywyd y strategaeth gyda gwaith pellach i'w drafod.

## 5. Adroddiad Blynyddol BGC Sir Benfro 2021-22

Dywedodd LR fod yr adroddiad drafft yn amlinellu gweithgarwch y BGC dros y 12 mis diwethaf a'i fod hefyd yn myfyrio ynghylch y Cynllun Llesiant blaenorol a'r materion y daethpwyd ar eu traws wrth ei gyflawni. Dywedodd CG fod myfyrio ynghylch y Cynllun Llesiant o gymorth mawr ond ei bod yn siomedig gyda rhai sylwadau am Lywodraeth Cymru yn peidio â blaenoriaethu BGCau gan bod nifer o fecanweithiau sy'n rhoi cymorth ac roedd arni eisiau tawelu meddyliau'r BGC. Fe ymatebodd LR, gan ddweud bod y sylwadau wedi cael eu hanfon yn uniongyrchol drwy'r e-bost gan aelodau hirsefydlog o'r BGC. Byddai LR yn diwygio'r iaith a ddefnyddir yn yr adran adborth.

Roedd hi'n dda gan SL glywed yr adborth gan CG ond nid oedd yn cymeradwyo'r hwb i weithio'n rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru gan bod llawer o BGCau yn uno i greu grwpiau rhanbarthol a Chydbwyllgorau Corfforedig, ac fe bwysleisiodd yr angen i gadw ffocws sirol i gydnabod yr adnoddau sydd gan gymunedau. Mae gan y BGCau rôl hollbwysig o ran hwyluso asedau cymunedol na fyddai'n gallu cael ei wneud o safbwynt rhanbarthol gan bod angen i waith fod yn hynod leol, ac ychwanegodd ei bod wrth ei bodd bod y BGC yn mynd i fod yn rhan o'r cynllun peilot Polisi Cymunedau.

Dywedodd CG fod gweithio'n rhanbarthol wedi cael ei nodi fel y dull mwyaf priodol mewn meysydd gwaith penodol a bod Gwent yn BGC a oedd wedi uno ond bod disgwyl o hyd y byddai'n cyflawni'r gwaith i lawr i lefel gymunedol.

Fe wnaeth y bwrdd gymeradwyo'r adroddiad.

## 6. Unrhyw Fater Arall

Dywedodd CD nad oedd cadeirydd ar gyfer yr is-grŵp newid hinsawdd ar hyn o bryd ac fe gynigiodd gamu i mewn i'r rôl a adawyd yn wag gan AW. Dywedodd NP y byddai'r broses o enwebu cadeirydd yn cael ei chwblhau ar ôl y cyfarfod i asesu'r is-grwpiau. Roedd ar DT eisiau tynnu sylw at y ffaith bod cyfarfod nesaf y grŵp cyn cyfarfod nesaf y BGC a'i fod yn hapus i aros fel Is-gadeirydd. Dywedodd PK ei fod yn cefnogi enwebiad CD.

Dywedodd NE fod dyddiad wedi cael ei gylchredeg ar gyfer digwyddiad cynnwys rhanbarthol a bod y dyddiad hwnnw wedi cael ei newid i 29 Medi ac y byddai'n cylchredeg yr wybodaeth. Dywedodd SL fod Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, PLANED a CoPro Wales yn gweithio ar gryfhau ymgysylltu ac y byddai ganddynt ddiddordeb mewn bod yn bresennol yn y digwyddiad, ond y gallai fod yn anodd heb roi llawer o rybudd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30pm.